

# Diweddariad Prosiect

# Llanbedr: Gwella Trafnidiaeth

### Mawrth 2026

Mae Cam 2 WelTAG ac adroddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer prosiect Llanbedr: Gwella Trafnidiaeth bellach wedi'u cwblhau. Mae'r rhain i'w gweld yma **Llanbedr: Gwella trafnidiaeth**

Mae datganiad i'r wasg, sydd ar gael drwy'r ddolen isod, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gyngor Gwynedd yn cynnwys cyfeiriad at gam nesaf prosiect Llanbedr: Gwella Trafnidiaeth:

**Dros £5.7 miliwn o grantiau trafnidiaeth i Wynedd ar gyfer 2026/7**

Nodir fod grant o hyd at £400,000 wedi'i sicrhau ar gyfer 2026/27 a fydd yn cael ei ddefnyddio i ymgymryd â phroses Cam 3 WelTAG a gweithgareddau cysylltiedig a fydd yn cynnwys:

- cwblhau aliniad a gwelliannau i'r dyluniad a ffafrir
- diweddaru amcangyfrifon costau, asesiadau risg a dadansoddiad effaith carbon
- sylw i faterion tir

Mae asesiad economaidd ac asesiadau amgylcheddol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae ecolegwyr o Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC) wedi dechrau cynnal cyfres o arolygon ecolegol yn yr ardal. Bydd y gwaith hwn yn parhau trwy weddill 2026 ac i mewn i'r flwyddyn nesaf. Mae'r arolygon yn cynnwys monitro bywyd gwyllt fel ystlumod, dyfrgwn, moch daear ac adar, a gall yr arolygon ddigwydd yn gynnar yn y bore neu'r nos.

Mae arolygon coed i fonitro cennau hefyd ar y gweill. Yn ogystal, bydd gwaith atgyweirio o amgylch y glwyd ystlumod yn parhau ac i mewn i fis Ebrill.

Mae dylunwyr YGC hefyd yn cwblhau mân newidiadau i ddyluniad y ffordd  gyda'r gwaith yn agosáu at ei gwblhau. Bydd swyddogion YGC yn dechrau cysylltu â thirfeddianwyr a allai gael eu heffeithio gan y dyluniad arfaethedig cyn bo hir. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu i drafod y cynllun yn fanylach.

I gysylltu â YGC ynglŷn â'r gwaith uchod, defnyddiwch **ygc@gwynedd.llyw.cymru** a dyfynnwch Llanbedr fel y pwnc.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned a'u diweddaru wrth i'r gwaith fynd rhagddo.